# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**09.12.25**




## 150 mlynedd ers trychineb Y Llan ~ 150 years since The Lan Disaster

Mae eleni yn nodi 150 mlynedd ers i drychineb Glofa'r Llan ysgwyd pentref Gwaelod y Garth. Trychineb lle cafodd 14 o ddynion a dau o blant eu lladd. Gwyddwn, wrth gwrs, i'r drychineb effeithio'n ddwys ar y pentref. Mae hi'n brofiad emosiynol yn flynyddol i ddisgyblion Blwyddyn 4 gymryd rhan mewn gwasanaeth goffa i nodi'r drychineb a bu'r gwasanaeth yn nodedig eleni wrth nodi'r 150 mlynedd. Mae ein diolch yn fawr i nifer yn y pentref am gydlynu'r gwasanaeth goffa hwn, neb llai na Norma Proctor sydd wedi gweithio'n ddiwyd dros flynyddoedd i gadw'r atgof yn fyw.

Bu criwiau ffilmiau y BBC yn bresennol yn y gwasanaeth eleni ac hyfryd oedd gweld yr achlysur ar *Wales Today*. Bydd y digwyddiad eleni yn aros yn y cof yn sicr. Fel a gwelwch, roedd disgyblion yn wirioneddol wych wrth arwain y gwasanaeth – rydym yn hynod falch o bob un ohonyn nhw. Mae Blwyddyn 4 yn parhau i ddysgu am y drychineb, ei effaith a'i arwyddocâd eang. Diolch i Miss Jones am ei gwaith trylwyr ac am arwain dysgu'r plant mor ystyrlon. Gwych, bawb!

Eleni, er mwyn nodi'r can mlynedd a hanner, cafodd ein plant ar draws yr ysgol gyfle i fynd i'r Llan er mwyn cael eu hysbrydoli yno i lunio darn o gelf. Mae'r darnau a grëwyd yn wirioneddol bendigedig ac mae oriel ym mhob dosbarth yn arddangos y gwaith. Ar ddiwrnod y gwasanaeth goffa, gosodwyd Oriel Gelf yn y Neuadd gydag esiamplau o'r gwaith arbennig hwn. Mae blas o rai o'r darnau celf isod.

Wrth i baratoadau'r Nadolig barhau, diolch i chi am gefnogi ein Ffair Nadolig. Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mherfformiadau'r Sioe Nadolig yr wythnos hon.

✵ ✵ ✵ ✵ ✵ ✵

*This year marks 150 years since the Llan Colliery disaster shook the village of Gwaelod y Garth. A disaster in which 14 men and two children were killed, having a profound impact on the whole village and beyond. It is a deeply emotional experience every year for Year 4 pupils to take part in a memorial service to mark the disaster and the service was especially emotional this year in marking the 150th anniversary. We thank many in the village for coordinating this memorial service, none other than Norma Proctor who has worked diligently over the years to keep the memory alive.*

*BBC film crews attended this year's memorial and it was wonderful to see the event featured on BBC Wales Today. This year's event will certainly stay in the memory. Our pupils were nothing short of exceptional as they led the service – we are extremely proud of each and every one. Year 4 pupils continue to learn about the disaster, its impact and its widespread significance. I would like to express my thanks to Miss Jones for her thorough work and for leading such meaningful learning.*

*This year, marking the centenary and a half, our children across the school had the opportunity to go to The Llan to be inspired to create pieces of art. The artworks created are truly wonderful and there is a gallery in each class displaying the pieces. On the day of the memorial service, we placed an Art Gallery in the Hall with examples of this work which was very special to see. There is a taste of some of the artwork below.*

*As the Christmas preparations continue, thank you for supporting our Christmas Fayre. We look forward to seeing you at this week's Christmas Show performances.* ☆☆☆☆

## Dyddiadau Pwysig
### *Important Dates*

**9.12.25 a 10.12.25**
Cyngherddau Nadolig
*Christmas Concerts*

**Iau / Thursday 11.12.25**
Derbyn a 1C - Sioe Cyw
*Derbyn & 1C - Sioe Cyw*

**Gwener / Friday 12.12.25**
Meithrin bore - Sherman
*Morning Nursery - Sherman*

**Gwener / Friday 12.12.25**
2E – Theatr Sherman
*2E – Sherman Theatre*

**Llun / Monday 15.12.25**
Meithrin Prynhawn - Sherman
*Afternoon Nursery - Sherman*

**Mercher / Weds 17.12.25**
2E – Theatr Sherman
*2E – Sherman Theatre*

**Gwener / Friday 12.12.25**
Diwedd Tymor
*End of Term*

**Llun / Monday 05.01.26**
Diwrnod HMS
*Inset Day*

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.
*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Gwasanaeth Goffa y Llan 1875 – 150 mlynedd

Y Llan Memorial 1875 – 150 years






















COLLIERY


Olivia

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Rhagfyr 12

Gwisgwch lan – chi a'r beic!

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday December 12

Dress up and
BLING YOUR BIKE!










**Amddiffyn a Diogelu Plant**

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

**Child Protection and Safeguarding**

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.




Llongyfarchiadau mawr i ferched Blwyddyn 5 a 6 am eu llwyddiannau yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Bu'r cystadlu nid yn unig yn frwd ond hefyd yn hynod safonol wrth i'r tîm gwyrdd bron iawn cyrraedd y rownd gyn-derfynol - dim ond colli allan ar wahaniaeth pwyntiau ac heb golli gêm. Rydym yn falch iawn ohonoch, bob un!




*Congratulations to the Year 5 and 6 girls for their successes in the Urdd netball tournament. The competition was not only intense but also of a high standard as the green team almost reached the semi-final – it came down to points difference as they didn't lose a game. We are very proud of you, all!*